# Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth - Cyswllt Ffermio 2026-2031 **- Meini Prawf Cymhwystra**

| Opsiwn | Categori | Statws cymhwyster | Gwasanaethau sydd ar gael | Mesur rheoli | Cyfyngiadau gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Busnes ffermio | LLAWN | Pob gwasanaeth | • Wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein)<br>• Cyfeirnod Cwsmer (CRN)<br>• 3ha o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru | Partneriaid busnes, aelodau agos o'r teulu *(priod/partneriaid/meibion/merched)* a gweithwyr ar gynllun Talu Wrth Ennill yn gymwys.<br>Cymorth â chymhorthdal (hyfforddiant) hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn *(cyfyngiadau yn berthnasol)*.<br>Hyd at 80% o gyllid ar gael i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol. Cyfyngedig i £3,000 fesul busnes cymwys. |
| **2** | Systemau ffermio / garddwriaeth arbenigol o dan 3ha | LLAWN | Pob gwasanaeth | • Wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein)<br>• Gweithgareddau Ffermio arbenigol o dan y trothwy 3ha<br>• Cyfeirnod Cwsmer (CRN)<br>• 550 o oriau llafur safonol y flwyddyn*<br>*Tystiolaeth Dderbyniol –<br>**Opsiwn A:** Dilysiad gan Gyfrifydd - Llythyr gan gyfrifydd achrededig yn cadarnhau bod y busnes wedi cwblhau dros 550 awr mewn blwyddyn galendr.<br>**Opsiwn B:** Dogfennaeth Ddilysu Annibynnol Gyfwerth Ategol wedi'i gwirio gan ffynhonnell achrededig annibynnol, fel cyfreithiwr. Rhaid i'r gwiriwr fod â dealltwriaeth ddigonol o'r busnes i gadarnhau bod 550 awr o waith wedi'u gwneud. | Rhaid i bob system ffermio / garddwriaeth arbenigol fodloni'r gofyniad >550 o oriau llafur safonol y flwyddyn.<br>Mae partneriaid busnes, aelodau teulu agos *(priod/partner/meibion/merched)* a gweithwyr ar gynllun Talu Wrth Ennill yn gymwys.<br>Hyd at 80% o gyllid ar gael i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol. Cyfyngedig i £3,000 fesul busnes cymwys. |

# Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth - Cyswllt Ffermio 2026-2031 **- Meini Prawf Cymhwystra**

| Opsiwn | Categori | Statws cymhwyster | Gwasanaethau sydd ar gael | Mesur rheoli | Cyfyngiadau gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **3** | Newydd-ddyfodiaid<br><br>Ffermwyr/ garddwriaethwyr newydd, gyda'r hyfforddiant a'r profiad i sefydlu busnes fferm/ garddwriaeth newydd. | CYFYNGEDIG | Digwyddiadau; Llawfeddygfeydd a gweithdai; Agrisgôp; Mentora; E-ddysgu; Academi Amaeth; Hyfforddiant achrededig; Menter ar y Cyd; Gwasanaeth Cynghori; FarmData+ | Unigolion sydd eisoes yn byw yng Nghymru sy'n bwriadu sefydlu busnes newydd. Rhaid bod gan unigolion gymhwyster coleg/addysg bellach perthnasol, neu eu bod nhw'n gweithio tuag at gymhwyster o'r fath, a/neu fod wedi cael o leiaf 2 flynedd o brofiad gwaith yn y sector.<br><br>• Bodloni'r gofyniad 3ha o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru o fewn dwy flynedd NEU allu dangos mwy na 550 o oriau llafur safonol y flwyddyn o fewn dwy flynedd**<br>• Wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein)<br>• Cyfeirnod Cwsmer (CRN)<br><br>* Gellir ystyried unigolion o gefndir nad yw'n ymwneud â ffermio heb unrhyw brofiad na chymwysterau fesul achos ar gyfer nifer cyfyngedig o wasanaethau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.<br><br>Ni ddylai fod wedi gwneud unrhyw waith fel contractwr o'r blaen.<br><br>** Tystiolaeth Dderbyniol –<br><br>**Opsiwn A:** Dilysiad gan Gyfrifydd - Llythyr gan gyfrifydd achrededig yn cadarnhau bod y busnes wedi cwblhau dros 550 awr mewn blwyddyn galendr.<br><br>**Opsiwn B:** Dogfennaeth Ddilysu Annibynnol Gyfwerth Ategol wedi'i gwirio gan ffynhonnell achrededig annibynnol, fel cyfreithiwr. Rhaid i'r gwiriwr fod â dealltwriaeth ddigonol o'r busnes i gadarnhau bod 550 awr o waith wedi'u gwneud. | Cymorth cymorthdaledig *(hyfforddiant)* hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn *(Cyfyngiadau yn berthnasol)*<br><br>Bydd hyd at 80% o gyllid ar gael i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol, wedi'i gyfyngu i £3,000 fesul busnes cymwys. |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**